Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Glercod Cynghorau Cymuned a Thref
Cyfarwyddwyr Cyllid
Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol

24 Tachwedd 2021

Annwyl Gyfaill,

**Swm Priodol o dan Adran 137(4)(a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972**
**Gwariant Adran 137 y Terfyn ar Gyfer 2022-23**

Dyma roi gwybod i chi mai £8.82 yw'r swm priodol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2022-23 at ddibenion adran 137(4)(a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (Deddf 1972) ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru.

Mae Adran 137(1) o Ddeddf 1972 yn caniatáu i Gyngor Cymuned neu Dref achosi gwariant ar bwrpas nad oes ganddo bwerau penodol yn ei gylch, os yw'r Cyngor yn ystyried y bydd y gwariant o fudd uniongyrchol i'r ardal, unrhyw ran ohoni, rhai o'r trigolion neu'r holl drigolion, cyn belled â bod y gost wedi achosi yn gyson â'r budd. Mae Adran 137(3) o'r Ddeddf hefyd yn caniatáu i Gynghorau Cymuned a Thref wario at ddibenion elusennol ac eraill penodol ac, yn y ddau achos, yr uchafswm y gellid ei wario o dan adran 137(1) ac (3) ar gyfer blwyddyn ariannol 2022-23 fydd £8.82 am bob etholwr.

Ar gyfer blwyddyn ariannol 2022-23, cyfrifir y swm priodol at ddibenion adran 137(4)(a) drwy ddefnyddio'r fformiwla (A x B) / C fel y nodir yn Atodlen 12B o Ddeddf 1972.

Cynyddodd y mynegai prisiau manwerthu 4.8% rhwng mis Medi 2020 a mis Medi 2021. Mae hyn yn golygu, drwy ddefnyddio'r fformiwla uchod, y bydd y swm priodol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2022-23 yn cynyddu o £8.41 i £8.82 am bob etholwr.

I esbonio, mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn cynnwys darpariaeth sy'n galluogi i 'gynghorau cymuned cymwys' arfer y Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol. Bydd y pŵer sy'n galluogi i Gynghorau Cymuned a Thref arfer y Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol yn dod i rym ar 5 Mai 2022. Bydd canllawiau statudol yn cael eu cyhoeddi i roi eglurder ar y ddau bŵer (y pŵer cymhwysedd cyffredinol a'r pŵer o dan adran 137 o Ddeddf 1972) a sut y byddant yn berthnasol. Ni fyddai cynghorau cymuned a thref sy'n arfer y Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol yn destun terfyn gwariant. Ar gyfer yr holl Gynghorau Cymuned a Thref eraill bydd y terfyn a nodir yn y llythyr hwn yn berthnasol.

Welsh Government / Llywodraeth Cymru
Cathays Park / Parc Cathays,
Cardiff / Caerdydd. CF10 3NQ

Yn gywir

**Judith Cole**
**Yr Is-adran Cyllid Llywodraeth Leol a Chynaladwyedd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Welsh Government / Llywodraeth Cymru
Cathays Park / Parc Cathays,
Cardiff / Caerdydd.  CF10 3NQ